Croeso i rifyn y Pasg 2024!

Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, i fod yn nhw eu hunain ac i fyw bywydau heb gael eu gwahaniaethu.

DIOGELWCH AR LEIN

Un ffocws bugeiliol yr hanner tymor diwethaf oedd diogelwch ar y we a seibr fwlio. Yn oes ddigidol heddiw, lle mae technoleg yn treiddio i bob agwedd ar fywyd, mae rhieni'n wynebu'r dasg frawychus o warchod eu plant rhag corneli tywyllach y byd ar-lein.

Hoffem daflu goleuni ar apiau a allai fod yn beryglus i blant, gan bwysleisio'r angen am arweiniad a goruchwyliaeth rhieni. O lwyfannau negeseuon dienw a all fod yn sail ar gyfer seiberfwlio i apiau cyfryngau cymdeithasol sy'n ymddangos yn ddiniwed a allai ddatgelu cynnwys amhriodol i blant, byddwn yn rhoi trosolwg o apiau sy'n gwarantu golwg agosach gan warcheidwaid. Mae'n hanfodol bod rhieni'n parhau i fod yn wybodus ac yn rhagweithiol wrth drafod diogelwch ar-lein gyda'u plant, gosod ffiniau priodol, a defnyddio nodweddion rheoli rhieni lle mae ar gael.

Rhieni

https://www.youtube.com/watch?v=OGTBhAW_AEY

https://sites.google.com/hwbcymru.net/support4parentsygcr/cadw-fy-mhlentyn-yn-ddiogel-keeping-my-child-safe

https://sites.google.com/hwbcymru.net/daioniygcr/cadw-fy-hun-yn-ddiogel

Disgyblion

Pethau i'w trafod gyda'ch plant

A wyddoch chi ba apiau mae'ch plant yn eu defnyddio a'u peryglon? Dyma restr o'r gwefannau a'r apiau y mae pobl ifanc yn heidio iddynt yn 2024.

https://www.familyeducation.com/entertainment-activities/online/a-complete-guide-to-potentially-dangerous-apps-all-parents-should-be-aware-of

Enw Da ar-lein:
- Deall sut mae gweithgaredd ar-lein yn creu 'ôl troed digidol' sy'n para am byth
- Bod yn ddinesydd digidol da – trin pobl fel y byddent wyneb yn wyneb
- Meddwl cyn postio

Meddwl feirniadol:
- Eu gwneud yn ymwybodol bod rhai pobl yn cuddio tu ô l i broffiliau ffug
- Deall bod popeth maen nhw'n eu gweld ar-lein ddim yn wir
- Cytuno ar ffiniau digidol i ganiatáu rhyddid iddynt wneud penderfyniadau gwybodus

Diogelwch Personol:
- Cadw gwybodaeth yn breifat trwy osodiadau preifatrwydd
- Sut mae proffil cyfryngau cymdeithasol da yn edrych
- Creu cyfrineiriau cryf ar gyfer pob cyfrif ar-lein

Coginio o Gyllideb gyda.. diolch i Multiply

YSGOL GYMUNEDOL

LLES

Cynigir 6 sesiwn x 2 awr yn Cwtsh y Cwm ar gynllunio prydau iach, gweithio o gyllideb, a pharatoi prydau iach.
Bwriad y rhaglen sy'n dechrau 19/4/24 am 10-12 am 6 wythnos yw

- **Datblygu** sgiliau coginio ymarferol rhieni a dealltwriaeth o bwysigrwydd coginio prydau iach o'r dechrau.
- **Wrth gynyddu ymwybyddiaeth** o rifedd bob dydd a hyder mewn sgiliau rhifedd.

Hoffech chi fod yn rhan? Cysylltwch â
Cwtsh@ygcwmrhondda.cymru

Cynhelir sesiwn Cymorth cyntaf 9/5/24 am 9.30-3.00 a bydd sesiwn defnyddio Defibrillator 11/6/24 am 9.30-11.30 diolch i'n **Swyddog Ymgysylltu Cyfranogwyr Gwaith a Sgiliau CBSRhC, Daniela Williams**

Hoffech chi fod yn rhan? Cysylltwch â
Cwtsh@ygcwmrhondda.cymru

Ffocws arall ein sesiynau bugeiliol oedd yr amgylchedd.

Hoffech wybod mwy?

https://docs.google.com/presentation/d/1p3MCWntbcK9cpo2XjHt44-kwA1iAW2sK/edit?usp=sharing&ouid=104151140503423341654&rtpof=true&sd=true

A wyddoch chi o 6 Ebrill 2024, bydd cyfraith newydd yn golygu bydd yn **rhaid** i holl weithleoedd gyflwyno'r deunyddiau isod **ar wahân** i'w hailgylchu.

- Gwastraff bwyd
- Papur a chardfwrdd
- Gwydr
- Metel, plastig a chartonau
- Eitemau trydanol bach heb eu gwerthu fel tegelli neu dostwyr
- Tecstilau heb eu gwerthu sy'n golygu pethau fel dillad neu rygiau

Rhaid i ni beidio â chael gwared ar bethau trwy wasgu gwastraff bwyd a'i roi i lawr y sinc. Mae'r rheol hon yn helpu i roi'r gorau i anfon pethau y gallwn eu hailgylchu i safleoedd tirlenwi neu gael eu llosgi. Os na fyddwn yn dilyn y rheolau hyn, efallai y bydd yn rhaid i ni dalu dirwy.
Mae'n bwysig bod ein disgyblion yn ddinasyddion cyfrifol ac yn dilyn y rheolau hyn.

Dysgwn fod effeithiau mawr yn dechrau gyda chamau bach a bod gennym ni i gyd y pŵer i wneud gwahaniaeth.

LLES

'DYSG' – CEFNOGAETH I CHI WRTH WYNEBU HERIAU GYDA'CH PLANT

https://sites.google.com/hwbcymru.net/support4parentsygcr/hafan

Cynhaliaeth i ddisgyblion YGCR

https://sites.google.com/hwbcymru.net/daioniygcr/hafan

Gyda llai na hanner tymor i fynd tan yr arholiadau allanol, mae'n allweddol i'n disgyblion ddechrau paratoi ond hefyd sicrhau eu bod yn rheoli eu straen. Roedd canllawiau yn ein rhifyn diwethaf ond hefyd, dyma adnoddau adolygu ar eich cyfer a chanllawiau sut i baratoi

TGAU: https://e-sgol.cymru/cy/recordiadau-tgau/

UG/ SU: https://e-sgol.cymru/cy/recordiadau-newydd/



Bob mis Mawrth rydyn ni'n dathlu Mis Hanes Menywod yn ogystal â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 8fed Mawrth. Wrth wraidd hyn yw anrhydeddu menywod a'u holl gyfraniadau trwy gydol hanes hyd heddiw a'u dathlu.

Enwebwyd Seren Bottomley, Eleri Thomas, Ffion Rickets a Mali Ryder gan aelodau staff fel merched ifanc ysbrydoledig sydd wedi goresgyn sefyllfaoedd anodd yn ddiweddar ond yn parhau i fod yn fodel rol i ferched iau'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i chi!



Gofynnon i staff a disgyblion enwebu disgyblion a staff am 'wneud y pethau bychain' a bod yn feddylgar o deimladau pobl eraill er mwyn codi calon ei gilydd. Diolch i'n disgyblion am fod mor hyfryd!

GWOBRWYO


YGCR
Ymgyrch Presenoldeb YG Cwm Rhondda
Ar gyfer y 10 diwrnod ola'r tymor, bydd un disgybl ym mhob blwyddyn yn ennill Wy Pasg a thocyn cinio cynnar ar gyfer dathlu presenoldeb!
YG Cwm Rhondda Attendance Campaign
For the last 10 days of term, one pupil in each year will win an Easter Egg and an early lunch ticket to celebrate attendance!

YGCR

YGCR
Dyheu · Dysg · Daioni
Dathlu Presenoldeb Blwyddyn 7
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda


YGCR
Dyheu · Dysg · Daioni
Hanfod ymddygiad teilwng yw rhoi a derbyn parch
The Brilliant Club

CYNHALIAETH

Croeso mawr i Kirsty Roberts ein nyrs ysgol newydd. Bydd Kirsty yn yr ysgol bob **dydd Mercher** am apwyntiadau.
Bydd Nick James (ein nyrs iechyd Rhywiol o Wasanaeth Atal Cenhedlu Ac Allgymorth Iechyd Rhywiol Cwm Taf Morgannwg) yn cynnal apwyntiadau bob **dydd Mawrth, yn dechrau 29/4/24,** rhwng 9.00-12.00.
Gall disgyblion wneud apwyntiadau trwy ebostio Llais@ygcwmrhondda.cymru a cheir mwy o wybodaeth i rieni yma https://docs.google.com/document/d/1uJn2jHwPFYpq8i3gg5GLIm_nReGlUrUm/edit?usp=sharing&ouid=104151140503423341654&rtpof=true&sd=true

Rydym wedi ffarwelio â 2 gwnselydd Eye 2 Eye yn ddiweddar Rhian Davies a Claire Duffy. Mae'n diolch iddynt yn anferthol a dymunwn bob dymuniad da iddynt yn eu mentrau newydd. Croesawn 2 gwnselydd newydd yn y tymor newydd i ymuno â Jess, sydd yn yr ysgol bob dydd Llun. I gael cyfeiriad at Eye 2 Eye, siaradwch ag aelod o'r tîm Lles.

Hoffech chi ymuno â ni? Rydym yn chwilio am aelodau newydd! Ebostiwch helengriffith@ygcwmrhondda.cymru

"Mae George yn enghraifft ddisglair o ddisgybl ymroddedig, gweithgar a moesgar. Mae cael ei ddewis yn Gapten ar Dîm Rygbi Ysgolion y Rhondda ar gyfer tymor 2023/24 yn dyst i'w sgiliau arwain a'i grêd mewn gwaith tîm ar y cae ac oddi arno. Mae George yn fodel rôl sy'n ymgorffori rhinweddau gwir arweinydd. Mae ei ymddygiad rhagorol, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn gosod safon uchel i bawb.
Rydyn ni i gyd yn hynod falch ohonot ti George!"

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf 3–10 Awst 2024



URKUNDE
URKUNDE
URKUNDE
PUMA

YGCR

Dyheu · Dysg · Daioni

08 / 04 / 24

Croeso 'nôl!

Wythnos B / Week B

Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl yfory.
Cofiwch ei bod yn wythnos 'B'.

We look forward to welcoming everyone back tomorrow.
Remember it's week 'B'.

Barod i ddysgu | Ready to learn

Cofiwch bacio eich bag ysgol gyda:

- *eich trefnydd personol*
- *eich cas pensiliau gydag offer ysgrifennu ayb*

Gwisgwch wisg ysgol gywir

Cofiwch – dim ffonau symudol / dyfeisiau electronig mas o fewn y ffens las

Remember to pack your school bag with:

- *a pencil case with pens / pencils etc*
- *your personal planner*

Wear full and correct school uniform

Remember – no mobile phones / electronic devices to be seen within the school grounds

Cofiwch bwysigrwydd presenoldeb gwych!

Mynychu • Cyflawni • Llwyddo

Remember the importance of excellent attendance!

Attend • Achieve • Succeed